

NATIONAL  
THEATRE WALES

# Cynllun Iaith Gymraeg

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 07/07/2014.

## Cynnwys

- 1 Cyflwyniad
- 2 Datganiad
- 3 Cynrychiadau a chynnyrch artistig
- 4 Delwedd Gyhoeddus
- 5 Cyfathrebiadau (print, y wasg a digidol)
- 6 Gweithrediad
- 7 Monitro
- 8 Cwynion ac adborth
- 9 Hysbysebu'r Cynllun a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd
- 10 Amserlenni a Chynllun Gweithredu

## 1 Cyflwyniad

National Theatre Wales yw cwmni theatr cenedlaethol Saesneg y wlad. Cafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2009, a llwyfannodd ei gynhyrchiad cyntaf ym mis Mawrth 2010. Nid yw National Theatre Wales yn sefydliad sy'n gweithredu o un adeilad penodol, mae'n llwyfannu cynyrchiadau a digwyddiadau mewn amrywiaeth eang o fannau a lleoliadau ledled Cymru.

Amcanion a nodau'r cwmni rhwng 2013-16 yw:

Bod yn Anhygoel:

- Defnyddio tirlun Cymru yn gyson (gwledig a diwydiannol) i ysbrydoli ein gwaith a'n cynulleidfaoedd
- Weithiau defnyddio storïau neu ddramâu adnabyddus a'u cyfleu mewn modd nad ydynt wedi cael eu cyfleu o'r blaen
- O bryd i'w gilydd creu digwyddiadau 'epig' sy'n creu argraff fyd eang.

Bod yn drawsnewidiol:

- Ymgysylltu â lleoliadau yng Nghymru fel 'safleoedd', gan gydweithio â staff a defnyddwyr i drawsnewid mannau a dysgu oddi wrth y sefydliadau
- Dechrau cyfres o gynyrchiadau gan 'feddiannu' sefydliadau allweddol – e.e. ysbyty, cyngor lleol, sefydliad chwaraeon – ein fersiwn ni o ddramâu 'cyflwr y genedl'
- Datblygu 'Prism Gwyrdd' sy'n berthnasol i'n holl waith – gan ofyn sut y gallwn ddefnyddio popeth yr ydym yn ei wneud i'n helpu i archwilio dyfodol cynaliadwy.

Bod yn Farddol:

- Chwilio am storïau Cymru nad ydynt wedi eu hadrodd eto a'u cyfleu mewn ffyrdd annisgwyl
- Cyflwyno artistiaid a chwmnïau rhyngwladol i Gymru sy'n meddu ar ffyrdd unigryw o greu theatr
- Comisiynu beirdd ac awduron blaenllaw Cymru i ddatblygu darnau theatr, ac annog dramodwyr i archwilio ffyrdd newydd o greu theatr – gan gynnig comisiynau sy'n herio ac yn ysgogi.

Bod yn Ddyfeisgar

- Datblygu rhwydweithiau llawn dychymyg yn y DU ac yn rhyngwladol o gwmpas meysydd sy'n gryfder i NTW – theatr wedi'i leoli, ymgysylltu â chymunedau, cysylltiadau digidol – gan wella enw da Cymru a gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau. Datblygu cyfleoedd cyd-gynhyrchu a nawdd a chanfod comisiynau rhyngwladol ar gyfer NTW
- Meddwl yn aml-lwyfan ar gyfer yr holl gynnwys a datblygu perthnasoedd agos â darlledwyr, asiantaethau ffilm, cyhoeddwyr a dyfeiswyr digidol i wasgaru cynnwys creadigol a chael yr incwm gorau posibl
- Datblygu perthnasoedd bywiog sy'n seiliedig ar gronfeydd data cynulleidfaoedd sy'n cynnwys data cadarn, llwyfannau arloesol (e.e. blaen tŷ ar eich ffôn), a chynigion cyffrous (gan ddatblygu llwyddiant pasbort NTW)

Bod yn Gydweithredol:

- Cynnwys 'Cymuned NTW' - o'r TEAM i artistiaid i aelodau ar-lein - ar bob lefel o benderfyniadau, o'r bwrdd i raglennu, gan ddefnyddio'u gwybodaeth i wella'r hyn rydym yn ei wneud
- Gweithio gyda llywodraeth, asiantaethau dielw, busnesau a chymunedau lleol i archwilio sut y gall theatr a chreadigrwydd fod yn rhan o weledigaeth gymdeithasol newydd i Gymru
- Dychmygu cynllun celfyddydau newydd ar raddfa fawr yng Nghymru, yn cael ei gyflawni gan holl gwmnïau blaenllaw'r wlad

Bod yn Hael:

- Trwy WalesLab, TEAM a chynlluniau eraill, cefnogi artistiaid sy'n dod i'r amlwg a gweithgarwch ar yr ymylon ym mhob ffordd posibl, a chreu cyfleoedd datblygu (megis cyrsiau preswyl NTW) ar gyfer artistiaid ar ganol eu gyrfaedd a chrewyr theatr
- Archwilio modelau newydd ar gyfer gweithgarwch ymylol ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg gan arddangos a rhannu. (e.e. ehangu gwerysll haf WalesLab yn wyl DIY)
- Datblygu'r model 'Assembly' a'n gweithgarwch ar-lein i annog a chefnogi trafodaeth ar faterion allweddol ein hoes.

Briff National Theatre Wales yw creu theatr Saesneg ei hiaith ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru a thu hwnt (lle mae Theatr Genedlaethol Cymru yn gyfrifol am greu theatr Gymraeg ei hiaith).

## **2 Datganiad**

Mae rhan helaeth o gyllid National Theatre Wales yn arian cyhoeddus - daw'r arian craidd gan Lywodraeth Cymru (trwy Gyngor Celfyddydau Cymru). Felly mae dyletswydd arnom i greu darpariaeth ddwyieithog ar gyfer y cyhoedd yn unol â'n canllawiau ariannu. Er bod ein cynnyrch artistig yn nodweddiadol yn Saesneg, gan ddilyn ein briff, cred National Theatre Wales bod cynnig gwasanaethau eraill i'r cyhoedd yn eu dewis iaith yn arfer da, felly rydym yn trin Saesneg a Chymraeg ar sail cydraddoldeb cyhyd â bod hyn yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol yn ymarferol.

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd National Theatre Wales yn cyflawni hyn wrth ddarparu gwasanaethau anartistig i'r cyhoedd yng Nghymru.

## **3 Cynrychiadau a chynnyrch artistig**

Lansiwyd National Theatre Wales yn 2009 â briff i greu theatr Saesneg ledled Cymru a thu hwnt. Wrth ystyried hyn, bydd cynnwys ein cynrychiadau theatr a digwyddiadau artistig eraill megis Assemblies a Word4Word bob amser yn Saesneg.

Mae National Theatre Wales yn cefnogi artistiaid sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu eu gwaith eu hunain trwy ei gynllun WalesLab, ac mae'n gweithio gyda Theatr Genedlaethol Cymru sy'n Gymraeg ei hiaith i annog artistiaid yng Nghymru i weithio yn eu dewis iaith.

## **4 Delwedd Gyhoeddus**

### **4.1 Hunaniaeth Brand**

Enw'r cwmni bob amser fydd National Theatre Wales, boed ar arwyddion parhaol, logos etc. (NODER: ni ellir cyfieithu hwn i'r Gymraeg, oherwydd wrth gyfieithu'r enw i Theatr Genedlaethol Cymru, mae'n cyfeirio at sefydliad penodol â hunaniaeth brand ei hun).

Bydd deunydd ysgrifenedig yn ddwyieithog lle bo'n briodol. Er enghraifft, bydd testun safonol a gwybodaeth megis dyddiadau, lleoliadau a gwybodaeth am gynulleidfaoedd yn ddwyieithog, ond ni fydd teitlau ac arwyddeiriau, dyfyniadau o sgriptiau neu ddyfyniadau o adolygiadau'r wasg yn ddwyieithog. Bydd papur pennawd, slipiau cyfarch a chardiau apwyntiadau yn ddwyieithog â'r ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd, eto, lle bo'n briodol.

Bydd yr holl hysbysiadau cyffredinol a chyhoeddus a hysbysebion swyddi i'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog.

### **4.2 Hysbysebu**

Bydd unrhyw hysbysebion darlledu yn cael eu darlledu yn yr iaith sy'n briodol i'r orsaf. Mae ein holl hysbysebion mewn cyhoeddiadau o Gymru yn gwbl ddwyieithog (neu'n Gymraeg yn unig, mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith). Byddwn yn chwilio ac yn ymchwilio i gyfleoedd hysbysebu drwy'r cyfryngau Cymraeg eu hiaith.

Mae ein holl hysbysebion recriwtio yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru.

Byddwn yn ystyried prynu gwagle hysbysebu yn y ddwy iaith neu'r naill iaith wrth asesu ein hanghenion hysbysebu.

### **4.3 Arwyddion**

Yng Nghymru, bydd yr holl arwyddion allanol a mewnol mewn manau cyhoeddus lle bynnag y mae National Theatre Wales yn gweithredu yn ddwyieithog ac yn gyfartal o ran ffurf, maint, safon ac amlygrwydd. Lle bynnag y bo'n hanfodol i ddefnyddio arwyddion Saesneg a Chymraeg ar wahân, byddant yn gyfartal.

Byddwn yn sicrhau bod yr holl arwyddion dros dro sy'n wynebu'r cyhoedd ac yn cael eu defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog, ar ôl cael eu gwirio yn y lle cyntaf gan siaradwr Cymraeg rhugl y mae naill ai yn aelod o staff neu'n rhan o'r gwasanaethau cyfieithu yr ydym yn eu defnyddio.

## **5 Cyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru.**

NODER: Nid yw National Theatre Wales, fel rheol, yn cyflogi llais corfforaethol o reidrwydd, ond yn hytrach mae'n gymuned o leisiau sy'n cynnwys ei staff, artistiaid sy'n cydweithio, cynulleidfaoedd ac aelodau TEAM. Mewn egwyddor, mae'r cwmni yn annog unigolion i fynegi eu hunain ym mha bynnag lais – ac iaith – y maent yn dewis.

### **5.1 Cyfathrebu ysgrifenedig ac electronig**

- Mae National Theatre Wales yn croesawu gohebiaeth yn Saesneg a Chymraeg.
- Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg yn arwain at oedi.
- Bydd unrhyw ohebiaeth Cymraeg a geir gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau yn derbyn ateb yn Gymraeg.
- Bydd yr amserlen o ran ymateb i ohebiaeth Cymraeg yr un fath ag ymateb i ohebiaeth Saesneg.
- Pan fyddwn yn gwybod bod yn well gan aelod o'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg, yna bydd yr unigolyn hwnnw yn derbyn pob gohebiaeth yn y dyfodol yn Gymraeg.
- Bydd National Theatre Wales yn dechrau ac yn cynnal cronfa ddata o gwsmeriaid sy'n dewis derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.
- Pan nad ydym yn gwybod dewis iaith yr unigolyn, er enghraifft wrth anfon llythyrau safonol, bydd gohebiaeth ysgrifenedig â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Bydd National Theatre Wales yn defnyddio asiantaeth gyfieithu broffesiynol, neu yn gofyn i staff sydd ar gael i ateb gohebiaeth yn Gymraeg os nad yw'r llall yn bosibl.

### **5.2 Cyfathrebiadau dros y ffôn**

Bydd canllawiau yn cael eu rhoi i staff am y camau y dylid eu dilyn wrth ateb y ffôn. Bydd yr holl alwadau allanol yn cael eu hateb â chyfarchiad dwyieithog safonol.

'Bore da/Good Morning, National Theatre Wales' neu 'Prynhawn da/Good Afternoon, National Theatre Wales'

Os nad yw aelod o staff yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog, yna bydd yn esbonio'r sefyllfa i'r unigolyn ac yn cynnig gwasanaeth Cymraeg gan wirfoddolwr/aelod arall o staff. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, gall y galwr ddewis cael siaradwr Cymraeg i ddychwelyd ei alwad; cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig (copi caled/e-bost); neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg. Bydd National Theatre Wales yn darparu cyfeirlyfr mewnol o siaradwr Cymraeg yn y sefydliad y gellir trosglwyddo galwadau iddynt.

Yn dilyn sgwrs ffôn yn Gymraeg, bydd yr holl gyfathrebiadau dilynol, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar gais y galwr. Bydd negeseuon peiriannau ateb yn ddwyieithog yn ein swyddfeydd yng Nghymru.

### **5.3 Wyneb yn wyneb**

Ni allwn warantu gwasanaeth Cymraeg bob amser, ond rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu yn Gymraeg i lawer o aelodau ein cynulleidfaoedd, ac rydym yn annog y defnydd o'r Gymraeg gan staff sy'n gallu cyfathrebu yn yr iaith.

Bydd National Theatre Wales yn ymdrechu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn bresennol yn eu swyddfeydd i ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg. Pan fydd ymholiadau o natur arbenigol yn cael eu gwneud yn Gymraeg, ac nid yw'r aelod o staff sy'n gymwys i

ymdrin â'r ymholiad yn siarad Cymraeg, bydd y cwsmer yn cael cyfle i gyfathrebu ei ymholiad yn Gymraeg a chael ateb yn Gymraeg, pryd bynnag y bo hyn yn bosibl.

Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg wyneb yn wyneb trwy ddefnyddio'r cynllun bathodyn Iaith Gwaith.

#### **5.4 Digwyddiadau Cyhoeddus**

**Digwyddiadau artistig**

Yn yr un modd a'i gynyrchiadau, ac yn unol â briff y cwmni, bydd digwyddiadau artistig cyhoeddus a gynhelir gan National Theatre Wales (e.e. Assembly, Word4Word) bob amser yn cael eu cyflwyno yn Saesneg yn unig.

**Digwyddiadau anartistig**

Bydd hysbysiadau am holl ddigwyddiadau cyhoeddus anartistig (e.e. lansiadau'r tymor, lansiadau preswyl, cynadleddau, gweithdai) yn ddwyieithog, a byddwn yn annog ein holl westai i ddefnyddio eu dewis iaith.

Bydd anghenion cyfieithu yn cael eu hasesu cyn cynnal unrhyw ddigwyddiadau anartistig, a bydd y cyfleusterau cyfieithu priodol yn cael eu darparu ar sail yr asesiad hwn. Os yw cyfleusterau cyfieithu yn cael eu darparu rhoddir gwybod ymlaen llaw y bydd croeso i unrhyw un siarad Cymraeg. Yn dilyn yr asesiad, os nad yw cyfleusterau cyfieithu yn cael eu hystyried yn addas neu'n anymarferol, bydd hyn yn cael ei fynegi ymlaen llaw. Gwneir yr asesiad ar sail pwrpas neu bwnc y cyfarfod, ei leoliad, y rheini sy'n debygol o fod yn bresennol ac unrhyw wybodaeth ynglyn â dewis iaith a geir ymlaen llaw. Yn yr un modd, gwneir asesiad o'r gofyniad i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg i dderbyn a chroesawu'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd. Byddwn yn ceisio sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu wirfoddolwr ar gael i siarad â'r cyhoedd.

Bydd bathodynau Iaith Gwaith sy'n dynodi siaradwyr Cymraeg yn cael eu gwisgo sy'n dangos pa aelodau o staff neu wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

Byddwn yn ceisio sicrhau bod digwyddiadau anartistig yn cael eu cadeirio'n ddwyieithog.

#### **5.5 Print a chyhoeddiadau (h.y. poster, taflenni a rhaglenni)**

Mae deunydd marchnata National Theatre Wales yn ddwyieithog.

Bydd rhaglenni ein cynyrchiadau yn ddwyieithog yng Nghymru ond lle darperir cynnwys gan ein hartistiaid sy'n cydweithio â ni rydym yn annog yr artistiaid hynny i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith, ac nid ydym yn cyfieithu'r cynnwys hwnnw.

#### **5.6 Datganiadau i'r Wasg**

Rydym yn ymrwymedig i gyhoeddi datganiadau a hysbysiadau dwyieithog i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru.

Mae datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Deallir o bryd i'w gilydd, mewn argyfwng, y bydd yn angenrheidiol cyhoeddi datganiad i'r wasg yn Saesneg yn unig gydag un arall yn dilyn yn Gymraeg, ond ym mhob amgylchiad arall bydd y broses gyfieithu yn cael ei chynnwys yn yr amserlen gynllunio. Gwneir asesiad o nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o bob cynhyrchiad, er mwyn i'r wasg Gymraeg ei hiaith gael arweiniad clir o ran y cyfweleion sydd ar gael i siarad â hwy yn Gymraeg.

### **5.7 Cyfathrebiadau Digidol**

Bydd gwefan National Theatre Wales yn gwbl ddwyieithog a bydd gan bob tudalen Saesneg dudalen Gymraeg cyfatebol. Bydd y ddwy iaith yn ymddangos ar wahân a bydd yn bosibl i'r defnyddiwr symud o'r naill iaith i'r llall ar unrhyw adeg trwy ddefnyddio'r botwm amlwg i newid yr iaith. Bydd deunydd a gyhoeddir ar wefan National Theatre Wales yn ymddangos yn Saesneg ac yn Gymraeg a bydd yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd lle bynnag y bo'n bosibl.

#### **Cymuned Ar-lein National Theatre Wales**

Mae'r fframwaith Ning a ddefnyddiwyd i greu Cymuned Ar-lein National Theatre Wales yn Saesneg yn unig ac ni ellir newid hwn. Fodd bynnag, anogir aelodau i gyfrannu blogs etc. yn eu dewis iaith trwy ddefnyddio neges ar y dudalen gartref yn Saesneg ac yn Gymraeg sy'n dweud "rydym yn annog sylwadau yn eich dewis iaith", yn unol ag egwyddor cyfathrebu cyffredinol y cwmni. Pe bai technoleg Ning yn datblygu i ddarparu ymarferoldeb dwyieithog bydd NTW yn paratoi ar gyfer y newid.

Ni fydd testun Saesneg sy'n cael ei osod ar y gymuned ar-lein gan rywun allanol yn cael ei gyfieithu. Yn yr un modd, ni fydd testun Cymraeg yn cael ei gyfieithu.

Pan fydd aelod o staff National Theatre Wales yn dechrau trafodaeth neu'n ymuno ag un ar y gymuned ar-lein, mae'n cael ei annog i wneud hynny ym mha bynnag iaith y mae'n dewis.

#### **Llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasu Eraill**

Mae ein holl e-dafleini yn ddwyieithog. Mae cynnwys ein gwasanaethau digidol (e.e. Trydar, Facebook) yn dibynnu gan fwyaf ar ddewis iaith pwy bynnag ysgrifennodd y cynnwys gwreiddiol. Anogir staff i ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasu yn eu dewis iaith, i hwyluso cymaint â phosibl o gyfathrebu a rhyngweithiad, ym mha bynnag iaith.

Mi gaiff ein e-gylchlythyr ei gynhyrchu yn ddwyieithog, unwaith y mis.

#### **Fideo, Sain a Ffotograffiaeth**

Bydd holl gynnwys fideo, sain a ffotograffiaeth (e.e. testun, penawdau, adroddiadau) yn ddwyieithog, heblaw am gynnwys artistig. Er enghraifft, ni fydd dyfyniadau o sgrriptiau neu deitlau sioeau, sy'n ymddangos mewn rhaghysbysebion fideo, yn cael eu cyfieithu, ond bydd yr wybodaeth yn y swyddfa docynnau yn cael ei chyfieithu.

## **6 Gweithredu'r Cynllun**



## **6.1 Staffio**

Mae National Theatre Wales yn cydnabod bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil gwerthfawr a pherthnasol.

Yn hynny o beth, byddwn yn cynnig darpariaeth lle bo'n bosibl i staff sy'n dymuno dysgu neu wella eu Cymraeg, a bydd gwasanaethau cyfieithu proffesiynol ar gael bob amser.

Pa bryd bynnag y sefydlir swydd newydd, neu swydd bresennol yn wag, byddwn yn asesu manteision sgiliau Cymraeg ar gyfer y rôl honno cyn ei hysbysebu, gan ystyried yn benodol a fydd deilydd y swydd yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd. Bydd sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn 'ddymunol' neu'n 'hanfodol' ar sail meini prawf asesu gwrthrychol. Mae hyn yn berthnasol i gontractau annibynnol yn ogystal â chontractau hirdymor a pharhaol.

Mae gan National Theatre Wales rwydwaith fawr o gynrychiolwyr ledled Cymru, diolch i'w raglen TEAM. Anogir ffrindiau'r cwmni i ymgysylltu â ni yn eu dewis iaith, ac mae'r rheini sy'n creu cynnwys ar gyfer y cwmni neu ar ei ran wedi gwneud hynny yn Gymraeg, Somali a Saesneg.

## **6.2 Partneriaethau a Chontractwyr**

Pan fyddwn yn arwain yn strategol ac yn ariannol o fewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau gwasanaethau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth, y mae sefydliad arall yn ei arwain, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn a byddwn yn weithgar yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Pa bryd bynnag y bydd National Theatre Wales yn cyflogi sefydliad arall dan gontract, byddwn yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r Cynllun ac yn cydymffurfio ag ef.

## **7 Monitro**

Wrth gynllunio polisiau a gweithdrefnau newydd, bydd National Theatre Wales yn sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn cydymffurfio â'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun hwn. Bydd National Theatre Wales yn asesu anghenion iaith y gynulleidfa darged er mwyn cynnig y gwasanaeth mwyaf effeithiol a gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau.

Trwy gyfrwng y llawlyfr staff, bydd staff yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ogystal â'r gofynion cytundebol ar y sefydliad. Bydd rhestr wirio ar gael i staff i nodi materion y dylid eu hystyried wrth ddatblygu polisiau a gweithdrefnau newydd.

Bydd Pwyllgor Iaith Gymraeg National Theatre Wales, sy'n cael ei gadeirio gan uwch reolwr, yn monitro gweithrediad y Cynllun yn unol â'r cynllun gweithredu a'r amserlen a atodwyd.

Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu bob blwyddyn gan fwrdd National Theatre Wales, a bydd adroddiad yn cael ei ddarparu gan dîm Gweithredol y cwmni a Chomisiynydd y Gymraeg.

Bydd National Theatre Wales yn adolygu a diwygio'r Cynllun bob tair blynedd mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg.

## 8 Cwynion ac adborth

Bydd unrhyw gwynion ynghylch gweithredu'r Cynllun yn cael eu trin ar lefel Weithredol.

Mae National Theatre Wales yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd, ei staff ac aelodau am wella ei Gynllun laith a'i wasanaethau. Dylid anfon awgrymiadau at Catrin Rogers, Swyddfa'r Wasg, [catrinrogers@nationaltheatrewales.org](mailto:catrinrogers@nationaltheatrewales.org) neu National Theatre Wales, 30 Arcôd y Castell, Caerdydd, CF10 1BW.

## 9 Hysbysebu'r Cynllun a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Bydd National Theatre Wales yn cyfeirio at y Cynllun yn ei gynllun busnes.

Bydd National Theatre Wales yn sicrhau bod copïau o'r Cynllun ar gael i'w weld a'i lawrlwytho o'i wefan.

## 10 Amserlenni a Chynllun Gweithredu

Mae \*Parhaus' yn dynodi bod y maes gwaith dan sylw eisoes wedi'i weithredu gan NTW

MAES GWEITHGARWCH	GWEITHREDIAD	GAN BWY	AMSERLEN
Cynrychiadau a Chynnyrch Artistig	<ul style="list-style-type: none"><li>Bydd rhaglenni ein cynrychiadau'n ddwyieithog yng Nghymru</li></ul>	Cyfathrebu	Parhaus
Digwyddiadau anartistig	<ul style="list-style-type: none"><li>Creu meini prawf asesu o ran anghenion cyfieithu ar gyfer digwyddiadau anartistig</li></ul>	Pawb	Awst '14
	<ul style="list-style-type: none"><li>Bydd anghenion cyfieithu'n cael eu hasesu cyn cynnal unrhyw ddigwyddiadau anartistig, a bydd y cyfleusterau cyfieithu priodol yn cael eu darparu ar sail yr</li></ul>	Pawb	Awst '14

	<p>asesiad hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn ceisio sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cadeirio'n ddwyieithog.</li> <li>• Byddwn yn ceisio sicrhau bod aelod o staff neu wirfoddolwr sy'n siarad Cymraeg ar gael i siarad â'r cyhoedd.</li> </ul>	Pawb	Awst '14
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hunaniaeth brand (e.e. slipiau cyfarch, cardiau busnes) yn ddwyieithog.</li> <li>• Arwyddion dwyieithog mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cyfateb i arwyddion Saesneg o ran ffurf, maint, safon ac amlygrwydd.</li> <li>• Byddwn yn chwilio ac yn ymchwilio i gyfleoedd i hysbysebu yn y cyfryngau Cymraeg eu hiaith.</li> <li>• Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yng Nghymru yn ddwyieithog a rhoddir canllawiau clir i'r wasg Gymraeg ei hiaith am y cyfweleion sydd ar gael i siarad â hwy yn Gymraeg.</li> </ul>	Gweinyddol	Cyflwyno'n barhaus, cwblhau erbyn Mawrth '16
Delwedd Gyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arwyddion dwyieithog mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cyfateb i arwyddion Saesneg o ran ffurf, maint, safon ac amlygrwydd.</li> <li>• Byddwn yn chwilio ac yn ymchwilio i gyfleoedd i hysbysebu yn y cyfryngau Cymraeg eu hiaith.</li> <li>• Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yng Nghymru yn ddwyieithog a rhoddir canllawiau clir i'r wasg Gymraeg ei hiaith am y cyfweleion sydd ar gael i siarad â hwy yn Gymraeg.</li> </ul>	Cyfathrebu	Cyflwyno'n barhaus, cwblhau erbyn Mawrth '16
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn chwilio ac yn ymchwilio i gyfleoedd i hysbysebu yn y cyfryngau Cymraeg eu hiaith.</li> <li>• Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yng Nghymru yn ddwyieithog a rhoddir canllawiau clir i'r wasg Gymraeg ei hiaith am y cyfweleion sydd ar gael i siarad â hwy yn Gymraeg.</li> </ul>	Cyfathrebu a Gweinyddol	Parhaus
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yng Nghymru yn ddwyieithog a rhoddir canllawiau clir i'r wasg Gymraeg ei hiaith am y cyfweleion sydd ar gael i siarad â hwy yn Gymraeg.</li> </ul>	Cyfathrebu	Parhaus
Cyfathrebiadau (print, y wasg a digidol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd deunydd ysgrifenedig ffeithiol yn</li> </ul>	Cyfathrebu	Parhaus

	<p>ddwyieithog e.e. dyddiadau, lleoliadau, gwybodaeth am gynulleidfaoedd etc</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd yr holl hysbysiadau cyffredinol a chyhoeddus a hysbysebion swyddi i'r wasg yng Nghymru yn ddwyieithog.</li> <li>• Datblygu a chynnal cronfa ddata o ddewis iaith ein cynulleidfaoedd gan nodi'r rheini sy'n dewis Cymraeg i dderbyn pob gohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.</li> <li>• Bydd unrhyw ohebiaeth gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg a lle bynnag y bo'n bosibl, bydd yr amserlen i ymateb yn Gymraeg yr un fath ag ymateb yn Saesneg.</li> <li>• Hyfforddi staff i ateb y ffôn yn ddwyieithog gan gynnwys gweithdrefn pan nad yw staff yn gallu parhau â'r alwad yn ddwyieithog.</li> <li>• Hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg wyneb yn wyneb trwy ddefnyddio'r cynllun bathodyn iaith Gwaith.</li> <li>• Bydd holl hysbysebion digwyddiadau anartistig</li> </ul>	<p>Gweinyddol</p> <p>Cyfathrebu</p> <p>Gweinyddol</p> <p>Gweinyddol</p> <p>Pawb</p> <p>Pawb</p>	<p>Parhaus</p> <p>Cwblhau erbyn Mawrth '16</p> <p>Awst '14</p> <p>Awst '14</p> <p>Parhaus</p> <p>Awst '14</p>
--	---	---	---

	<p>yn ddwyieithog, a byddwn yn annog ein gwestai i ddefnyddio eu dewis iaith.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd gwefan National Theatre Wales yn gwbl ddwyieithog. Bydd gwybodaeth Saesneg a Chymraeg yn cael ei chyhoeddi ar yr un pryd lle bynnag y bo'n bosibl.</li> <li>• Neges ar Gymuned Ar-lein NTW yn Saesneg a Chymraeg yn nodi "Rydym yn annog sylwadau yn eich dewis iaith".</li> <li>• Mae ein holl e-dafleni a e-gylchlythyron yn ddwyieithog.</li> <li>• Bydd holl gynnwys fideo, sain a ffotograffiaeth (e.e. testun, penawdau, adroddiadau) yn ddwyieithog heblaw am gynnwys artistig.</li> </ul>	<p>Cyfathrebu</p> <p>Cyfathrebu</p> <p>Cyfathrebu</p> <p>Cyfathrebu</p>	<p>Awst '14</p> <p>Hydref '14</p> <p>Hydref '14</p> <p>Hydref '14</p>
Gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn cynnig darpariaeth lle bynnag bo'n bosibl i'r holl staff sy'n dymuno dysgu neu wella eu Cymraeg, a bydd gwasanaethau cyfieithu proffesiynol ar gael bob amser.</li> <li>• Byddwn yn weithgar yn annog ein partneriaid i gydymffurfio â'r cynllun hwn.</li> <li>• Pa bryd bynnag y bydd National Theatre Wales</li> </ul>	<p>Gweinyddol</p> <p>Pawb</p> <p>Pawb</p>	<p>Parhaus</p> <p>Awst '14</p> <p>Awst '14</p>

	<p>yn cyflogi sefydliad arall dan gontract byddwn yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r Cynllun ac yn cydymffurfio ag ef.</p>		
Gweinyddu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn 'ddymunol' neu'n 'hanfodol' ar sail meini prawf asesu gwrthrychol. Mae hyn yn berthnasol i gontractau annibynnol a chontractau hirdymor a pharhaol.</li> <li>• Creu cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg y sefydliad.</li> <li>• Bydd negeseuon ein peiriannau ateb yn ddwyieithog yn ein swyddfeydd yng Nghymru.</li> <li>• Trwy gyfrwng y llawlyfr staff, bydd staff yn ymwybodol o'r Cynllun laith Gymraeg hwn.</li> </ul>	<p>Gweinyddol</p> <p>Gweinyddol</p> <p>Gweinyddol</p> <p>Gweinyddol</p>	<p>Parhaus</p> <p>Awst '14</p> <p>Awst '14</p> <p>Awst '14</p>
Monitro	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd rhestr wirio ar gael i staff yn nodi materion y dylid eu hystyried wrth ddatblygu polisiau a gweithdrefnau newydd i sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn cydymffurfio â'r ymrwymadau yn y Cynllun hwn.</li> <li>• Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu bob blwyddyn gan fwrdd NTW, a bydd</li> </ul>	<p>Gweinyddol</p> <p>Bwrdd</p>	<p>Gaeaf '14</p> <p>Parhaus</p>

	<p>adroddiad yn cael ei ddarparu gan dîm Gweithredol y cwmni a Chomisiynydd y Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd National Theatre Wales yn adolygu a diwygio'r Cynllun bob tair blynedd mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg.</li> </ul>	Gweithredol	Parhaus
TEAM	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofyn i aelodau TEAM beth yw eu dewis iaith.</li> </ul>	TEAM	Awst '14
Cwynion ac adborth	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymateb i gwynion ac adborth yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno.</li> </ul>	Pawb	Awst'14
Hysbysebu'r Cynllun a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ychwanegu copi o'r Cynllun at wefan NTW.</li> </ul>	Cyfathrebu	Awst '14